PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**ARHOLIADAU MYNEDIAD**
**Ionawr 2020**

# CYMRAEG – IAITH GYNTAF

**Amser – 1.5 awr**
**Atebwch ddau gwestiwn, un o Adran A ac un o Adran B**

---

## ADRAN A - Gwerthfawrogi Llenyddiaeth

1. Ysgrifennwch werthfawrogiad o **naill ai** (a) y gerdd neu (b) y darn rhyddiaith isod gan roi sylw manwl i'r cynnwys a'r arddull.

*(a)*

**Cymru**

Gymru! A wyt ti am drengi mewn gwirionedd yn y llwch?
Oni chawn ni ryw argoel y deui'n ôl?
Oni chawn ni goelio, a'n plant ni goelio
Y daw Cymru a'i hurddas yn ôl?
A gawn ni dy gladdu ar dy eistedd mewn ogof
Ac arlwyo danteithion melysaf y byd
Ar silffoedd ifori o'th gwmpas,
A gadael rhyw agoriad bach yn y pridd
Rhag dy gladdu yn llwyr i dragwyddoldeb?
Gwelsom farwolaeth cyn hyn, ac wynebau angau
Yn syllu o lofftydd ysbytai dros y gerddi agos;
Gwelsom fabanod gwaed a mamau galar,
A'r dyn â'r sach am ei 'sgwyddau
Yn gwthio'r ferfa ludw drwy'r tir.
Bob hwyrnos mae aroglau llwydni'n yr awyr
A'r cŵn yn sleifio'n farus ger lampau'r stryd.
Ond nid ofnwn angau, nac ysbrydion angau:
Yn yr hydref syrth mes y deri i'r mwsog
Ac nid yw'r byd yn gofidio.
Yn yr hydref bydd dail yn cwympo
A changhennau yn gwywo yn ddiffrwyth,
Ond y mae'r dderwen yn byw i dragwyddoldeb blynyddoedd,
Gymru! A wyt am drigo mewn gwirionedd yn dy lwch?
Yn yr hydref syrth mes y deri i'r mwsog,
Ac nid yw'r byd yn gofidio.
Ond pe bai'r dderwen ei hunan yn trengi,
Beth a ddywedai haul trannoeth wrth godi?
Beth a sibrydai'r dafnau glaw
Wrth droi a throsi yn y cymylau?

(b)

***Cyngerdd Awr Ginio***

Wrth ymyl y caffe ar bwys y maes parcio aml-lawr aeth Ifor ar ei ben i ddyn canol oed yn cario cwdyn Tesco yn llawn nwyddau.

'Mae'n ddrwg gen i,' meddai'n frysiog, gan godi banana oddi ar y llawr.

'Pam na wnewch chi edrych lle 'dach chi'n mynd?' gofynnodd y dyn yn ffroenuchel.

Ond doedd Ifor ddim yn ei glywed. Roedd ei sylw wedi ei hoelio ar ferch ifanc yn aros gerllaw'r groesfan pelican yng nghanol Heol y Santes Fair. Roedd hi wedi gosod ei gwallt brown yn chwaethus mewn bwn ac yn gwisgo cot hir las. Estynnodd Ifor y fanana yn freuddwydiol i'r dyn a thynnodd hwnnw'r ffrwyth o'i law yn sarrug gan barhau i duchan o dan ei anadl.

Newidiodd y dyn coch yn ddyn gwyrdd a chroesodd y ferch yr hewl yn hamddenol. Brysiodd Ifor ar ei hôl, yn cadw ei lygaid ar y llawr ac yn cadw ei bellter. Llusgodd ei draed yn llechwraidd ar hyd y palmant. Trodd y ferch i'r chwith a thra dilynai hi cafodd Ifor gip arno'i hun yn ffenest siop Howells. Gwisgai got law lwyd a gwregys trwchus o amgylch y canol. Rhwng ei drwyn a'i wefus roedd yr hyn a ymdebygai'n aflwyddiannus i fwstás.

Yn sydyn safodd y ferch a syllu ar gwrlid pinc a gwyn yn ffenest y siop. Yna edrychodd ar ei horiawr a cherddodd ychydig ynghynt. Teimlodd Ifor ei wyneb yn twymo yn y gwynt wrth iddo garlamu ar ei hôl.

'Lowri!' ebychodd.

Trodd y ferch rownd a rhuthrodd Ifor ati gan wasgaru hanner dwsin o golomennod o gylch ei thraed. Craffodd y ferch arno am eiliad. Yna dwysaodd ei hwyneb yn sydyn.

'O,' meddai, heb lawer o frwdfrydedd, 'down i ddim yn eich adnabod am funud.'

'Y mwstás,' meddai Ifor, gan wenu a phwyntio'n eiddgar at rywle rhwng ei drwyn a'i wefus uchaf. Crychodd Lowri ei llygaid mewn ymdrech i ddod o hyd i'r blewiach honedig.

'Ma' fe heb gwpla tyfu eto,' ychwanegodd Ifor yn lletchwith.

'O,' meddai Lowri. 'Wel mae'n ddrwg gen i ond fedra i ddim aros. Dwi'n gorfod mynd i Neuadd Dewi Sant.'

‘Na!’ ebychodd Ifor.

‘Ydw. Mae ffrind i mi yn chwarae’r piano yna yn ystod yr awr ginio. Neis eich gweld chi eto. Ta ta,’ meddai hi’n derfynol, gan droi ar ei sawdl a dechrau cerdded i ffwrdd.

Rhuthrodd Ifor ar ei hôl, dan rincian dannedd. Cymerodd Lowri arni beidio â sylwi ei fod e’n ei dilyn. Er hynny, roedd yn dal i glywed ei ddannedd tu ôl iddi. Âi’r sŵn drwyddi, gan yrru tonnau afledniais i lawr ei chefn. Cerddai’n gyflym erbyn hyn a chan ei bod hi’n llawer talach nag Ifor roedd rhaid iddo frasgamu er mwyn cadw i fyny â hi.

Mae hynna’n anhygoel!’ gwaeddodd Ifor. ‘Ar fy ffordd i Neuadd Dewi Sant oeddwn i!’

Safodd Lowri’n stond, yn barod i ddatgan ei gwrthwynebiad. Ond roedd hi’n rhy hwyr. Roedd Ifor eisoes wedi ei phasio ac yn dal un o ddrysau gwydr y Neuadd yn agored iddi.

**ADRAN B - Defnyddio’r Iaith**

Atebwch **naill ai** 2 neu 3.

**2. Cyfieithwch y darn canlynol i Gymraeg llenyddol safonol:**

The first real social network site was launched in 1997. SixDegrees.com allowed users to create profiles, list their Friends and, beginning in 1998, surf the Friends lists. Each of these features existed in some form before SixDegrees, of course. Profiles existed on most major dating sites and many community sites. Classmates.com allowed people to affiliate with their high school or college and surf the network for others who were also affiliated, but users could not create profiles or list Friends until years later. SixDegrees was the first to combine these features.

SixDegrees promoted itself as a medium to help people connect with and send messages to others. While SixDegrees attracted millions of users, it failed to become a sustainable business and, in 2000, the service closed. Looking back, its founder believes that SixDegrees was simply ahead of its time. While people were already flocking to the Internet, most did not have extended networks of friends who were online.

From 1997 to 2001, a number of community websites began supporting various combinations of profiles and publicly accepted Friends. AsianAvenue, BlackPlanet, and MiGente allowed users to create personal, professional, and dating profiles—users could identify Friends on their personal profiles without seeking approval for those connections.

**3. Ailysgrifennwch y darn isod gan ffurfioli'r iaith (heb newid yr ystyr) a chywiro'r holl wallau. Yna esboniwch unrhyw ddeg o'r gwallau mewn deg o'r ymadroddion a danlinellwyd (gan ddefnyddio'r termau gramadegol priodol hyd y gellwch).**

Gobaith y gellir triniaeth 'Frankenstein' iachau cleifion

Mae un carfan o wyddonwyr yn credu gallai ddefnyddio cerynt drydannol arwain i gynydd mawr yn maes gwella anafiadau difrifol. Yn y dyfodol gallai hwn sicrhâu bod pobol sy wedi colli breichiau neu coesau yn cael y cyfle o'u ail dyfu. Cesglid ddigon o *evidence* eisioes i awgrymu bod cerynt drydannol yn anog tŵf yn nerfau synwyro bobol sy wedi diodde niwed i'w asgwrn cefn. Honnir Dr Ann Raknicek y buodd gwyddonwyr yn gyndun i gymryd triniaeth o'r math yn ddifrifol "am bod nhw'n cysylltu fe a'r monster Frankenstein ag arferiadau amheus meddygau Oes Fictoria". Ei barn hi ydi nid ydyn nhw wedi llwyddo gwerthfawrogi y gallu o drydan. "Pan yr ydych chi'n trio gwerthu eich syniad i gwmniau sy'n cynnig *sponsorship*, yn fy mrofiad i mae ei ymateb yn tueddu bod braidd yn negatif," meddai. "Ond y gwir o'r mater ydi bod posibiliadau y triniaeth newydd hwn yn ddibendraw."

Pan y cafodd nofel poblogaidd Mary Shelley, *Frankenstein*, ei ysgrifennu, oedd obsesiwn gyda'r cyhoedd a dyfeisiau trydannol a'i gallu i wella pobol. Creuwyd ddyfeisiau i drin bob fath o anwylderau, o iselwch meddwl i afiechyd y *kidneys* i problemau riwiol. Roedd doctoriaid yn y cyfnod hynny yn awyddus iawn i ecsberimentio ar bobl byw yn ogystal a cyrff meirw.